

Rhif: WG35281



Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Bwyd a Maeth mewn Lleoliadau Gofal Plant

Canllawiau arferion gorau

Dyddiad cyhoeddi: 27 Mehefin 2018.
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 14 Medi 2018

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron

Trosolwg

Bwriad y canllawiau hyn yw helpu lleoliadau gofal plant i fodloni rheoliadau gofal plant ar gyfer bwyd a diod.

Sut i ymateb

Dylech lenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i dychwelyd i: Lifestyles@llyw.cymru

Comment [MM(-C1): Please confirm Welsh e-mail address

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Enw: Y Gangen Byw'n Iach ac Egnïol

Cyfeiriad: Llywodraeth Cymru
Parc Cathays 2
Caerdydd
CF10 3NQ

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich Hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

e-bost:

Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Comment [MM(-C2)]: Please confirm Welsh e-mail address

Rhagair

Ein gweledigaeth yw i blant o bob cefndir gael y dechrau gorau posib mewn bywyd. Rydym yn gwybod bod bwyta deiet cytbwys, iach a maethlon a bod yn gorfforol egnïol yn hanfodol i baratoi plant ar gyfer dyfodol iach. Mae hynny'n helpu plant i dyfu a datblygu mewn ffordd iach, ac yn gosod sylfaen ar gyfer eu hiechyd a'u llesiant yn y dyfodol. Gall y blynyddoedd cynnar gael effaith gadarnhaol ar ddewisiadau bwyd wrth i blentyn bach ddechrau cael llais wrth benderfynu pa fwydydd mae'n fodlon eu bwyta. Mae tystiolaeth yn dangos bod arferion bwyta yn ystod y blynyddoedd cynnar yn parhau yn ystod plentyndod diweddarach a bywyd fel oedolyn.

Gall lleoliadau gofal plant gynnig cyfle perffaith i annog plant ifanc i fwyta'n iach a dysgu am fwyd. Rydym yn falch iawn o lansio'r ymgynghoriad hwn ar *Bwyd a Maeth mewn Lleoliadau Gofal Plant, Canllawiau Arferion Gorau*. Y bwriad yw helpu lleoliadau i fodloni'r rheoliadau gofal plant ar gyfer bwyd a diod, ond hefyd helpu rhieni i fod yn fwy ymwybodol o'r hyn y mae'r lleoliadau yn ei gynnig i'w plant a throsglwyddo negeseuon i'r cartref am eu dewisiadau iach. Bydd hyn yn ategu rhaglenni a mentrau polisi cenedlaethol eraill sy'n effeithio ar y blynyddoedd cynnar ac ar blant.

Mae'r canllawiau bwyd a maeth yn un elfen o'r gwaith sy'n cael ei gyflawni yn y maes hwn. Rydym hefyd yn y broses o ddatblygu Strategaeth Pwysau Iach 10 mlynedd, a fydd yn destun ymgynghoriad yn ddiweddarach eleni. Bydd y strategaeth yn nodi sut y byddwn yn helpu pobl i sicrhau pwysau iach ac yn amlinellu'r camau gweithredu sydd eu hangen ar lefel genedlaethol i helpu i atal a gostwng lefelau gordewdra yng Nghymru. Mae lleoliadau gofal plant yn chwarae rhan bwysig yn creu amgylchedd sy'n hybu dewisiadau iach, ac yn medru helpu i gyflwyno arferion bwyta da am oes.

Rydym am i'r canllawiau arferion gorau fod yn adnodd ymarferol a hawdd ei ddefnyddio a fydd yn helpu i sicrhau darpariaeth bwyd o ansawdd ardderchog mewn lleoliadau gofal plant. Drwy'r ymgynghoriad hwn, rydym am glywed gan ddarparwyr gofal plant, cydlynwyr cynlluniau meithrin, arolygwyr, deietegwyr, awdurdodau lleol, ac yn bwysicaf oll, rhieni.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal gweithdai ar draws Cymru i ddod â rhanddeiliaid ynghyd i drafod y canllawiau. Byddwn hefyd yn cydlynu'n uniongyrchol gyda'r darparwyr i ystyried eich profiadau ymarferol. Rydym am glywed am eich profiadau o fwyd a diod mewn lleoliadau ar hyn o bryd, ac ystyried rhywfaint o'r arferion da sydd eisoes yn digwydd.

Rydym yn cydnabod cyfraniad sefydliadau darparwyr gofal plant allweddol, Arolygiaeth Gofal Cymru, Deietegwyr ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, a gynorthwyodd i lunio'r canllawiau drafft. Hefyd Public Health England am gael defnyddio bwydlenni a ryseitiau, a oedd yn defnyddio gwaith gwreiddiol y Children's Food Trust, (2017)¹.

Rydym yn croesawu'ch sylwadau, a fydd o gymorth wrth gynhyrchu'r fersiwn derfynol y byddwn yn ei lansio yn ddiweddarach eleni.

¹Children's Food Trust (2017), *Developing new example menus for early years settings in England, to reflect current government dietary recommendations: Technical report*.

Beth yw'r prif faterion?

Mae ymarferwyr a lleoliadau gofal plant mewn sefyllfa ddelfrydol i helpu i ffurfio arferion bwyta plant am oes ac i helpu plant ifanc i fwyta'n dda. Rydym am annog arferion safonol ar draws Cymru, ac am i leoliadau gofal plant ystyried sut y gallant helpu i ystyried y bwyd sy'n cael ei gynnig yn eu lleoliadau ar hyn o bryd.

Mae'r canllawiau arferion gorau yn un elfen yn unig o'r gwaith sy'n cael ei wneud ar fwyd a maeth. Bydd ymgynghoriad ar Strategaeth Pwysau Iach 10 mlynedd yn ddiweddarach eleni. Ein nod yw gweithio gyda lleoliadau gofal plant i helpu i wella a llunio amgylchedd sy'n cefnogi arferion bwyta cadarnhaol a helpu darparwyr i fodloni rheoliadau gofal plant ar gyfer bwyd a diod.

Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd?

Mae'r canllawiau gweithredu polisi drafft yn disodli ac yn adeiladu ar ganllawiau cynharach 2009 ar fwyd mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru².

Roedd papur gwyn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn amlinellu'r cynigion ar gyfer datblygu canllawiau pellach a safonau arferion gorau ar fwyd a maeth mewn lleoliadau cyhoeddus eraill, gan gynnwys lleoliadau gofal plant. Cyhoeddi canllawiau arferion gorau ar gyfer bwyd a maeth mewn lleoliadau gofal plant yw dechrau'r broses hon.

Y dystiolaeth ar gyfer newid

Gall plant sy'n mynychu lleoliadau gofal o oedran ifanc fod yn derbyn hyd at 90% o'u bwyd a'u maeth yno os ydynt yn cael gofal am ddiwrnod llawn. Gallant hefyd dderbyn byrbrydau a diodydd mewn amrywiol leoliadau sy'n cyfrannu at gyfanswm eu lefelau maeth, a gall hyn effeithio ar eu deiet yn gyffredinol.

Mae tystiolaeth yn dangos bod modd i ddeiet iach arwain at dwf a datblygiad iach, amddiffyn iechyd y plentyn, hyrwyddo iechyd y geg a gosod sylfaen ar gyfer iechyd a llesiant y plentyn yn y dyfodol. Bydd arferion sy'n cael eu mabwysiadu yn ystod y blynyddoedd cynnar yn parhau yn ystod plentynod diweddarach a bywyd fel oedolyn. Mae'r Rhaglen Mesur Plant ar gyfer 2017 yn dangos bod tua chwarter (27.4%) plant 4-5 oed Cymru dros eu pwysau neu'n ordew.

² *Canllawiau Bwyd ac Iechyd ar gyfer Lleoliadau Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Llywodraeth Cymru (2009)*

**Ffurflen Ymateb i'r
Ymgynghoriad**

Eich enw:
Sefydliad (os yw'n
berthnasol):
e-bost / rhif ffôn:
Eich cyfeiriad:

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Bwyd a Maeth mewn Lleoliadau Gofal Plant - canllawiau arferion gorau

Rydym am weithio gyda lleoliadau gofal plant i helpu i wella a llunio amgylcheddau sy'n cefnogi arferion bwyta cadarnhaol a helpu darparwyr i fodloni rheoliadau gofal plant ar gyfer bwyd a diod.

Er mwyn gwneud hyn, rydym wedi cynnwys nifer o gwestiynau i'w hystyried am gynnwys y ddogfen:

Math o ymatebwr:

Darparwr gofal plant

Arolygydd gofal plant

Gweithiwr iechyd proffesiynol

Rhiant

Arall (nodwch)

1. Ydych chi'n cytuno ei bod yn ddefnyddiol cael canllawiau a safonau maeth cyfoes?

Ydw / Nac ydw Eglurwch pam
2. Beth yw eich barn am gynllun yr adrannau, ydyn nhw'n hawdd eu darllen a'u dilyn?
3. Beth fyddai'n helpu i sicrhau eu bod ar gael yn hwylus i chi? (ee adrannau unigol ar y we, hawdd eu hargraffu)
4. Gan ystyried pob un o'r adrannau, ydych chi'n teimlo bod:
 - a. unrhyw adrannau penodol o wybodaeth yn y ddogfen yr ydych yn anghytuno â nhw?

- b. unrhyw fylchau o ran gwybodaeth y dylid ei chynnwys yn eich barn chi?
- c. unrhyw rannau sy'n arbennig o ddefnyddiol?

5. Ydych chi'n teimlo bod unrhyw faterion neu rwystrau penodol a allai atal y canllawiau maeth rhag cael eu gweithredu'n llwyddiannus?

Os felly, dywedwch beth ydynt a sut y gellid eu goresgyn yn eich barn chi.

6. Pa fath o hyfforddiant, cefnogaeth neu adnoddau yr hoffech chi eu gweld i helpu i weithredu'r safonau hyn yn llwyddiannus?

7. Ydych chi'n credu y bydd y canllawiau hyn yn helpu i wella darpariaeth bwyd mewn lleoliadau gofal plant?

8. Sut fyddwch chi'n eu defnyddio?

Os ydych chi'n ddarparwr gofal plant, atebwch gwestiynau 9 a 10.

9. Ydych chi'n meddwl y bydd y safonau yn eich helpu i gynllunio prydau, byrbrydau, diodydd a bwydlenni i'r plant dan eich gofal?

10. Ydych chi'n meddwl y bydd y ryseitiau yn helpu?

Rydyn ni wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi cyfeirio'n benodol atyn nhw, mae croeso ichi eu nodi isod: Nodwch yma:

Mae'n debygol y bydd ymatebion i ymgynghoriadau yn cael eu cyhoeddi, naill ai ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os hoffech inni gadw'ch ymateb yn ddiennw, ticiwch yma: